Cawn yn y Beibl y pwyslais cyson fod Duw ar waith, a defnyddir sawl delwedd i gyfleu hynny. Un ohonynt yw'r ddelwedd o ddŵr bywiol, ac un o'r rhai sy'n cydio ynddi yw'r proffwyd Eseciel. Trigai ef ym Mabilon, ar lan yr afon Cheber, yng nghyfnod sych a diffrwyth y Gaethglud, ond tery nodyn gobeithiol yn ei broffwydoliaeth. Gwêl ddŵr yn llifo allan o ochr dde'r deml, gan ddyfnhau i fod yn afon fawr;

Yr Afon o'r Deml *(Eseciel 47:1-12)*
Aeth y dyn â mi'n ôl at ddrws y deml, a gwelais ddŵr yn dod allan o dan riniog y deml tua'r dwyrain, oherwydd wynebai'r deml tua'r dwyrain; yr oedd y dŵr yn dod i lawr o dan ochr dde'r deml, i'r de o'r allor. Yna aeth â mi allan trwy borth y gogledd, a'm harwain oddi amgylch o'r tu allan at borth y dwyrain, ac yr oedd y dŵr yn llifo o'r ochr dde.

Wrth i'r dyn fynd allan tua'r dwyrain â llinyn mesur yn ei law, mesurodd fil o gufyddau, a'm harwain trwy ddyfroedd oedd at y fferau. Yna mesurodd fil arall, a'm harwain trwy ddyfroedd oedd at y gliniau; a mesurodd fil arall, a'm harwain trwy ddyfroedd oedd at y wasg. Mesurodd fil arall eto, ond yr oedd yn afon na allwn ei chroesi, oherwydd yr oedd y dyfroedd wedi codi gymaint fel y gellid nofio ynddynt, ac yn afon na ellid ei chroesi. A dywedodd wrthyf, "Fab dyn, a welaist ti hyn?"

Yna aeth â mi'n ôl at lan yr afon. Pan gyrhaeddais yno, gwelais nifer mawr o goed ar ddwy lan yr afon. Dywedodd wrthyf, "Y mae'r dyfroedd hyn yn llifo i diriogaeth y dwyrain, ac yna i lawr i'r Araba ac i mewn i'r môr, y môr y mae ei ddyfroedd yn ddrwg, ac fe'u purir. Bydd pob math o ymlusgiaid yn byw lle bynnag y llifa'r afon, a bydd llawer iawn o bysgod, oherwydd bydd yr afon hon yn llifo yno ac yn puro'r dyfroedd; bydd popeth yn byw lle llifa'r afon. 1Bydd pysgotwyr yn sefyll ar y lan, ac o En-gedi hyd En-eglaim bydd lle i daenu rhwydau; bydd llawer math o bysgod, fel pysgod y Môr Mawr. Ni fydd y rhosydd a'r corsydd yn cael eu puro, ond fe'u gadewir ar gyfer halen. Ar y glannau oddeutu'r afon fe dyf coed ffrwythau o bob math, ac ni fydd eu dail yn gwywo na'u ffrwyth yn methu;

ffrwythant bob mis, oherwydd bydd y dyfroedd o'r cysegr yn llifo atynt, a bydd eu ffrwyth yn fwyd a'u dail yn iechyd.”

Mae gweledigaeth Eseciel yn dwyn i gof yr afonydd oedd yn cwmpasu gardd Eden, y lle delfrydol hwnnw lle’r oedd bywyd yn haws ac yn hapus. Mae afon fywiol yn un o hoff ddarluniau awduron llyfrau’r ddau Destament. Mae Ioan, er enghraifft, yn sôn am Iesu Grist yn dod i Wŷl y Pebyll ac yn gwahodd ei gynulleidfa at ‘ffrydiau o ddŵr bywiol yn llifo’;

Ar ddydd olaf yr ŵyl, y dydd mawr, safodd Iesu a chyhoeddi'n uchel: “Pwy bynnag sy'n sychedig, deued ataf fi ac yfed. Allan o'r sawl sy'n credu ynof fi, fel y dywedodd yr Ysgrythur, y bydd ffrydiau o ddŵr bywiol yn llifo.” (7:37-38)

Yn ei esboniad ar lyfr Eseciel mae’r diweddar Barchedig Cynwil Williams yn cyfeirio at ddameg sy’n ein hatgoffa o ‘fywiol ddŵr Eseciel’;

Adeiladwyd eglwys mewn anialwch, mewn canrif gynnar, a datblygodd yn eglwys gadeiriol. Fe’i hadeiladwyd uwchben ffynnon, lle’r yfai pererinion blinedig ddŵr oer a phur ar eu teithiau. Ar y dechrau, pentwr o gerrig oedd yn dynodi’r fan. Deuai pob pererin â charreg at y ffynnon fel arwydd o ddiolchgarwch. Yn ddiweddarach, adeiladwyd y capel, ac wedi hynny, eglwys a thŵr iddi, ac allor o’i mewn. Fel y tyfodd poblogrwydd y llecyn, ychwanegwyd ato, ac ar ôl cyfnod hir, cyhoeddodd yr esgob ei bod yn gadeirlan.

Gyda’r canrifoedd, collodd yr eglwys ei hapêl. Gwelwyd llai yn tramwyo heibio iddi, ac ychydig o’r rheini oedd yn mynd iddi. Pa ryfedd? Nid oedd sôn mwyach am ffynnon iachusol. Fe’i collwyd dan dunelli o gerrig nadd a thywod. Yna, gorchmynnodd esgob effro’i feddwl i rai gloddio’n ddyfal am y fynnon. Daethpwyd o hyd iddi droedfeddi lawer o dan yr allor. Unwaith eto, gwelwyd mwy o bererionion yn galw i ddi-sychedu’u hunain. Cynyddodd eu rhif, a daeth yr eglwys, a fu’n llwydaidd farw, yn gyrchfan byw ac yn aelwyd ystbrydol eto.

(‘Gwae a Gobaith’ t.200)

A ninnau yn nhymor y diolchgarwch bydd canu eto ar emyn Cernyw (C. Ff. 65);

Am gael cynhaeaf yn ei bryd
dyrchafwn foliant byw;
fe gyfoethogwyd meysydd byd
gan fendith afon Duw

Y gamp o hyd fydd peidio gadael i afon y fendith gael ei chladdu dan adeiladwaith ein bywyd bob dydd.

Gweddi

Diolchwn i ti, ein Tad, am yr afonydd sy’n dyfrhau ein bywyd ac yn dwyn bendith.
Afon cyfeillgarwch a chymdeithas dda,
afon cymod a chyd-ddeall,
afon cymwynasgarwch a gwasanaeth.
Sylweddolwn i’r rhain lifo i’n byd yn ystod y misoedd diwethaf gan liniaru ein gofid a rhoi inni obaith a llawenydd.
Maddau inni am fod mor ddibris ohonynt,
a gadael i gymaint o bethau rwystro eu llif.
Maddau ein dihidrwydd a’n hunanoldeb,
ein hamharodrwydd i newid,
a’r ysfa honno i ddilyn ein dyheadau yn ddifeddwl.
‘Crea galon lân ynom O Dduw’, yw ei gweddi,
‘A gosod ysbryd uniawn o’n mewn’,
fel y gwnawn yr hyn sy’n iawn yn dy olwg di,
ac y rhown ein bryd ar gynorthwyo’n gilydd.

Diolchwn i ti am fendith fawr yr efengyl,
ac am ddyfodiad Iesu Grist i’n byd;
am ei ddysgeidiaeth a’i esiampl,
ei gariad a’i drugaredd,
ei wahoddiad i bawb ddod ato,
a’i allu i iachau a mendio
holl ofidiau ein byd a’n cyfnod.

Boed i afon ei fendithion
lifo'n gryf i'n bywyd,
a'i ddŵr iachusol dorri ein syched,
wrth inni fyw a gweithio er ei fwyn
a threulio'n bywyd i'w glodfori.

Cyflwynwn iti bawb heddiw sy'n sychedig:
am gymod a heddwch,
am degwch a chyfiawnder,
am gysur a chynhaliaeth,
am ddiben i'w bywyd ac ystyr i'w byw,
a'r llawnder a'r tangnefedd
na all neb ond tydi dy hun ei roddi.

Bydd gyda hwy, fel yr wyt gyda ninnau,
a bendithia bawb sy'n annwyl yn ein golwg
ac a hoffai le yn ein gweddi.
Gofynnwn y cyfan yn enw ac yn haeddiant
Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Emyn 'Mae d'eisiau di bob awr'

Ctrl a Chlic
https://youtu.be/Bc6r8e3wQnk
Richie Thomas

Y Fendith

Duw fo'n gysur ac yn nerth i ni;
Duw fo'n obaith ac yn gynhaliaeth i ni;
Duw fo'n llewyrch ac yn llwybr u ni;
a bendith Duw, Greawdwr, Waredwr a Rhoddwr bywyd,
a fo arnom yn awr a hyd byth. Amen.
(Llyfr Gweddi Seland Newydd)